**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 103 (Cy.10) (C.6)

# GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2004

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r chweched Gorchymyn Cychwyn a wnaed o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 ("y Ddeddf") mewn perthynas â Chymru.

Mae erthygl 2 yn pennu 24 Ionawr 2004 fel y diwrnod y daw adran 6(3) o'r Ddeddf i rym yng Nghymru.

Mae erthygl 3 yn pennu 31 Ionawr 2004 fel y diwrnod y daw adran 12 o'r Ddeddf i rym yng Nghymru.

Mae erthygl 4 yn pennu 1 Ebrill 2004 fel y diwrnod y daw adran 49 o'r Ddeddf i rym yng Nghymru, i'r graddau nad yw'r adran honno eisoes mewn grym.

Mae adran 6(3) yn mewnosod diwygiadau ym mharagraff 16 o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 sy'n galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau a rhoi cyfarwyddiadau i Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ynghylch tâl a thelerau ac amodau eraill y maent yn cyflogi staff odanynt ac yn gyffredinol mewn cysylltiad â materion ynghylch cyflogi staff.

Mae adran 12 yn mewnosod adran 19A newydd yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. Mae'r ddarpariaeth newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol drefnu, i'r graddau y mae'n

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 103 (W.10) (C.6)

# NATIONAL ASSISTANCE SERVICES, WALES

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Health and Social Care Act 2001 (Commencement No. 6) (Wales) Order 2004

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order is the sixth Commencement Order made under the Health and Social Care Act 2001 ("the Act") in relation to Wales.

Article 2 appoints 24th January 2004 as the day on which section 6(3) of the Act comes into force in Wales.

Article 3 appoints 31st January 2004 as the day on which section 12 of the Act comes into force in Wales.

Article 4 appoints 1 April 2004 as the day on which section 49 of the Act comes into force in Wales, in so far as that section is not already in force.

Section 6(3) inserts amendments into paragraph 16 of Schedule 2 to the National Health Service and Community Care Act 1990 which enables the National Assembly for Wales to make regulations and issue directions to NHS Trusts in Wales about the remuneration and other terms and conditions on which they employ staff and generally in connection with matters concerning the employment of staff.

Section 12 inserts a new section 19A into the National Health Service Act 1977. This new provision requires the National Assembly to arrange, to such extent as it considers necessary to meet all reasonable

ystyried sy'n angenrheidiol i fodloni holl ofynion rhesymol, i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer pobl sy'n dymuno cwyno am y gwasanaeth y maent (neu y mae rhywun y maent yn gofalu amdano) wedi ei gael oddi wrth y GIG.

Mae adran 49 yn eithrio gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig o'r gwasanaethau y gall yr awdurdodau lleol eu darparu yn unol â deddfiadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal cymunedol.

requirements, for the provision of independent advocacy services for people who wish to complain about the service they (or someone they care for) has received from the NHS.

Section 49 excludes nursing care by a registered nurse from the services which can be provided by local authorities pursuant to enactments relating to the provision of community care services.

**NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

| Y ddarpariaeth | Dyddiad Cychwyn | O.S. Rhif |
|---|---|---|
| Adran 3 | 1 Gorffennaf 2002 (yn rhannol) | 2002/1475 |
| Adran 5 | 1 Gorffennaf 2002 | 2002/1475 |
| Adran 11 | 1 Rhagfyr 2002 | 2002/1475 |
| Adran 13 | 17 Mawrth 2003 | 2003/713 |
| Adran 16 | 26 Awst 2002 | 2002/1919 |
| Adran 19 - 26 | 1 Gorffennaf 2002 | 2002/1475 |
| Adran 27 | 26 Awst 2002 | 2002/1919 |
| Adran 28 - 39 | 1 Gorffennaf 2002 | 2002/1475 |
| Adran 41 - 43 | 1 Gorffennaf 2002 | 2002/1475 |
| Adran 49 | 3 Rhagfyr 2001 (yn rhannol) | 2001/3807 |
| Adran 50(1) | 8 Ebrill 2002 | 2001/3752 |
| Adran 50 (2) i (10) | 19 Rhagfyr 2001 | 2001/3807 |
| Adran 51 | 8 Tachwedd 2001 | 2001/3752 |
| Adran 52 | 8 Tachwedd 2001 | 2001/3752 |
| Adran 53 | 1 Ebrill 2003 | 2003/939 |
| Adran 54 | 1 Ebrill 2003 | 2003/939 |
| Adran 55 | 1 Ebrill 2003 | 2003/939 |
| Adran 67(1) ac Atodlen 5; | 1 Ebrill 2002, 1 Gorffennaf 2002 a 26 Awst 2002 (yn rhannol) | 2002/1095, 2002/1475 a 2002/1919. |
| Adran 67(2) ac Atodlen 6; | 1 Ebrill 2002, 15 Ebrill 2002, 1 Gorffennaf 2002 a 26 Awst 2002 (yn rhannol) | 2002/1095, 2002/1312, 2002/1475 a 2002/1919 |
| Atodlen 2 | 1 Gorffennaf 2002 | 2002/1475 |
| Atodlen 3 | 1 Gorffennaf 2002 | 2002/1475 |

**NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS**

*(This note is not part of the Order)*

| Provision | Date of Commencement | S.I. No. |
|---|---|---|
| Section 3 | 1st July 2002 (partially) | 2002/1475 |
| Section 5 | 1st July 2002 | 2002/1475 |
| Section 11 | 1st December 2002 | 2002/1475 |
| Section 13 | 17th March 2003 | 2003/713 |
| Section 16 | 26th August 2002 | 2002/1919 |
| Section 19 - 26 | 1st July 2002 | 2002/1475 |
| Section 27 | 26th August 2002 | 2002/1919 |
| Section 28 - 39 | 1st July 2002 | 2002/1475 |
| Section 41 - 43 | 1st July 2002 | 2002/1475 |
| Section 49 | 3rd December 2001 (partially) | 2001/3807 |
| Section 50(1) | 8th April 2002 | 2001/3752 |
| Section 50(2) to (10) | 19th December 2001 | 2001/3807 |
| Section 51 | 8th November 2001 | 2001/3752 |
| Section 52 | 8th November 2001 | 2001/3752 |
| Section 53 | 1st April 2003 | 2003/939 |
| Section 54 | 1st April 2003 | 2003/939 |
| Section 55 | 1st April 2003 | 2003/939 |
| Section 67(1) and Schedule 5 | 1st April 2002, 1st July 2002 and 26th August 2002 (partially) | 2002/1095, 2002/1475 and 2002/1919 |
| Section 67(2) and Schedule 6 | 1st April 2002, 15th April 2002, 1st July 2002 and 26th August 2002 (partially) | 2002/1095, 2002/1312, 2002/1475 and 2002/1919 |
| Schedule 2 | 1st July 2002 | 2002/1475 |
| Schedule 3 | 1st July 2002 | 2002/1475 |

Mae amryw o ddarpariaethau'r Ddeddf wedi'u dwyn i rym mewn perthynas â Lloegr gan yr Offerynnau Statudol canlynol: O.S. 2001/2804 (C.95); O.S. 2001/3167 (C.101); O.S. 2001/3294 (C.107); O.S. 2001/3619 (C.117); O.S. 2001/3752 (C.122); O.S. 2001/3738 (C.121); O.S.2001/4149 (C.133); O.S. 2002/1095 (C.26); O.S. 2002/1312 (C.36); O.S. 2002/2363 (C.77); O.S. 2003/53 (C.3); O.S. 2003/850 (C.46) ac O.S. 2003/2245 (C.87).

Various provisions of the Act have been brought into force in relation to England by the following Statutory Instruments: S.I. 2001/2804 (C.95); S.I. 2001/3167 (C.101); S.I 2001/3294 (C.107); S.I. 2001/3619 (C.117); S.I. 2001/3752 (C.122); S.I. 2001/3738 (C.121); S.I.2001/4149 (C.133); S.I. 2002/1095 (C.26); S.I. 2002/1312 (C.36); S.I 2002/2363 (C.77); S.I. 2003/53 (C.3); S.I. 2003/850 (C.46) and S.I. 2003/2245 (C.87).

# 2004 Rhif 103 (Cy.10) (C.6)

# GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2004

*Wedi'i wneud* *20 Ionawr 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 64(6) a 70(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(**a**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1**.-(1)Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2004.

(2) Yn Gorchymyn hwn, cyfeirir at Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 fel "y Ddeddf".

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Y diwrnod penodedig mewn perthynas ag adran 6(3) o'r Ddeddf**

**2**. 24 Ionawr 2004 yw'r diwrnod penodedig i adran 6(3) o'r Ddeddf ddod i rym.

**Y diwrnod penodedig mewn perthynas ag adran 12 o'r Ddeddf**

**3**. 31 Ionawr 2004 yw'r diwrnod penodedig i adran 12 o'r Ddeddf ddod i rym.

(a) 2001 p.15; y Cynulliad Cenedlaethol yw'r awdurdod perthnasol ar gyfer gwneud y Rheoliadau hyn yn rhinwedd adran 66 o'r Ddeddf.



# 2004 No. 103 (W.10) (C.6)

# NATIONAL ASSISTANCE SERVICES, WALES

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Health and Social Care Act 2001 (Commencement No. 6) (Wales) Order 2004

*Made* *20th January 2004*

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on it by sections 64(6) and 70(2) of the Health and Social Care Act 2001(**a**), hereby makes the following Order:

**Citation, interpretation and application**

**1**.-(1) This Order may be cited as the Health and Social Care Act 2001 (Commencement No.6) (Wales) Order 2004.

(2) In this Order, the Health and Social Care Act 2001 is referred to as "the Act".

(3) This Order applies to Wales only.

**Appointed day in respect of section 6(3) of the Act**

**2**. 24th January 2004 is the day appointed for the coming into force of section 6(3) of the Act.

**Appointed day in respect of section 12 of the Act**

**3**. 31st January 2004 is the day appointed for the coming into force of section 12 of the Act.

(a) 2001 c.15; the National Assembly is the relevant authority for the making of these Regulations by virtue of section 66 of the Act.

**Y diwrnod penodedig mewn perthynas ag adran 49 o'r Ddeddf**

**4**. 1 Ebrill 2004 yw'r diwrnod penodedig i adran 49 o'r Ddeddf ddod i rym i'r graddau na chafodd yr adran honno ei dwyn i rym eisoes.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

20 Ionawr 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) 1998 p.38.

**Appointed day in respect of section 49 of the Act**

**4**. 1st April 2004 is the day appointed for the coming into force of section 49 of the Act in so far as that section has not already been brought into force.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

20th January 2004

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 103 (Cy.10) (C.6)

## GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2004

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 103 (W.10) (C.6)

## NATIONAL ASSISTANCE SERVICES, WALES

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Health and Social Care Act 2001 (Commencement No. 6) (Wales) Order 2004

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090859-7

9 780110 908595

**£3.00**

W236/02/04 ON